

Disgrifiad Swydd

CYFARWYDDIAETH:	Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant
ADRAN:	Gofal Cymdeithasol i Oedolion / Tîm ICOT a Synhwyrdd
SWYDD:	Cynorthwyydd Cymorth (A2W)
GRADD Y SWYDD:	Gradd 04
YN ATEBOL I'R:	Uwch-ymarferydd – Gwasanaethau Synhwyrdd

DIBEN Y SWYDD:

Gweithredu fel gyrrwr a chynorthwyydd cymorth i alluogi'r Cynorthwyydd Synhwyrdd i wneud ei ddyletswyddau'n effeithlon ac yn effeithiol. (Mae'r Cynorthwyydd Synhwyrdd yn gweithio o dan gyfarwyddyd y gweithwyr arbenigol yn y tîm i hyrwyddo Adsefydlu, Annibyniaeth a Chanlyniadau Cadarnhaol ymarferol gan ddefnyddio amrywiaeth o ymyriadau ymarferol.)

PRIF GYFRIFOLDEBAU A GWEITHGAREDDAU:

- Gyrru'r Cynorthwyydd Synhwyrdd ar draws ei ranbarth gwaith i gynorthwyo ymweliadau â chleientiaid, hyfforddiant a chyfarfodydd fel sy'n gymesur â chyfrifoldebau Deiliad Swydd y Cynorthwyydd Synhwyrdd.
- Darparu cymorth golwg i'r Cynorthwyydd Synhwyrdd, gan gynnwys cyfeiriadu a thywys mewn amgylcheddau anghyfarwydd.
- Dod o hyd i gyfeiriadau, cynllunio llwybrau ac amseroedd teithiau i sicrhau bod y Cynorthwyydd Synhwyrdd yn gallu cyflawni ei ymrwymadau dyddiadur mewn modd prydlon.
- Sicrhau bod gyrru o fewn y rheoliadau traffig ffyrdd safonol a chynnal logiau cerbydau a chwblhau ffurflenni milltiroedd misol a chynnal archwiliadau cerbydau, mynd â'r cerbyd i gael ei drin, i gael MOT ac i gael ei lanhau.
- Cymryd nodiadau a darllen dogfennaeth i'r Cynorthwyydd Synhwyrdd yn ôl y gofyn a thrin gwybodaeth mewn modd sensitif a chynnal cyfrinachedd gan gymhwyso'r Ddeddf Diogelu Data lle bo angen.

- Cynorthwyo â mewnbynnu data sylfaenol ar Microsoft Office gan gynnwys Excel a Word, cadw calendr Outlook a chadw cofnodion cywir a chyfrinachol gan ddefnyddio WCCIS.
- Dod o hyd i wybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys y rhynggrwyd, y fewnrwyd a deunydd argraffedig.
- Dangos ymrwymiad a chymryd rhan weithredol mewn datblygiad proffesiynol parhaus fel sy'n berthnasol i'r rôl.

DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL

Iechyd a Diogelwch

Cyflawni'r rolau a chyfrifoldebau cyffredinol a phenodol a nodir yn y [Polisi Iechyd a Diogelwch](#)

Cyfle Cyfartal

Sicrhau bod pob gweithgaredd yn cael ei weithredu yn unol â deddfwriaeth cyfle cyfartal ac arfer gorau.

Diogelu

Mae amddiffyn plant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl yn un o gyfrifoldebau craidd pob cyflogai. Dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon i'r Tîm Diogelu Oedolion neu'r Gwasanaeth IAA Plant o fewn MASH.

Adolygiad a Hawl i Amrywio

Mae'r Disgrifiad Swydd hwn fel yr un cyfredol a chaiff ei adolygu'n rheolaidd. Efallai y bydd gofyn i chi gyflawni tasgau eraill y gallir eu neilltuo i chi'n rhesymol, gan gynnwys gweithgareddau datblygu, sydd o fewn eich gallu a'ch gradd.

GWIRIAD COFNODION TROSEDDOL

Mae'r swydd hon yn ei gwneud yn ofynnol cael gwiriad cofnodi troseddol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)

Manyleb y Person

Cynorthwyydd Cymorth (A2W)

Mae'r priodoleddau canlynol yn cynrychioli amrediad y sgiliau, y galluoedd a'r profiad ac ati sy'n berthnasol i'r swydd hon. Disgwylir i'r ymgeiswyr fodloni'r priodoleddau sydd wedi'u nodi fel rhai hanfodol (Ydy)

Priodoleddau	Gofynion	Hanfodol	Dull Gwerthuso / Profi
Cymwysterau, Addysg a Hyfforddiant	Safon dda o addysg i Lefel TGAU neu gyfwerth ar radd C o leiaf - gan gynnwys Mathemateg a Saesneg neu'n gallu dangos cymhwysedd drwy brofiad.	Ydy	Cyflwyno tystysgrifau cymwysterau gwreiddiol a ffurflen gais.
Gwybodaeth a Phrofiad	- Yn hyddysg mewn cyfrifiadura gyda gwybodaeth dda am becynnau Microsoft Office. - Profiad o waith gyrru. - Profiad o weithio gyda phobl ddall a rhannol ddall a'u cynorthwyo. - Gwybodaeth am Sgiliau Tywysydd sy'n gallu Gweld.	Ydy Ydy	Cyfweliad, ffurflen gais, geirdaon a phroses ddethol.
Sgiliau a Rhinweddau Personol	- Gallu ffurfio perthnasoedd gwaith adeiladol. - Safon dda o rifedd a llythrennedd. - Gallu cyfathrebu'n glir ac yn effeithiol - Gallu dangos sgiliau trefniadol a rheoli amser da.	Ydy Ydy Ydy Ydy	Ffurflen gais, cyfweliad a phroses ddethol.

Priodolledau	Gofynion	Hanfodol	Dull Gwerthuso / Profi
	- Gallu rheoli materion cyfrinachol gydag uniondeb a natur ddibynadwy. - Gallu gweithio'n hyblyg a dilyn cyfarwyddiadau. - Meddu ar drwydded yrru lawn yn y DU a mynediad i'ch trafnidiaeth eich hun. - Gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg.	Ydy Ydy Ydy	